Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Parodrwydd ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol

Hydref 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Beth mae ysgolion effeithiol yn ei wneud yn dda?** | **8** |
| Ethos a diwylliant cynhwysol | 8 |
| Rolau arwain clir | 9 |
| Bod yn sefydliad dysgu | 11 |
| Dyheadau uchel yn seiliedig ar arfer asesu gref | 11 |
| Gweithio gyda phartneriaid | 13 |
| Buddsoddi mewn staff | 15 |
| Cynorthwyo rhieni a disgyblion | 16 |
| Prosesau cryf ar gyfer gwella ysgolion | 20 |
| **Pa feysydd y mae angen i ysgolion eu gwella?** | **21** |
| **Sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y diwygiadau?** | **22** |
| **Pa ddata sydd gennym ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig?** | **24** |
| **Atodiad: Sail y dystiolaeth** | **26** |
| **Geirfa** | **27** |
| **Cyfeiriadau** | **29** |

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn 2017-2018. Mae’r adroddiad yn archwilio’r graddau y mae ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn paratoi i fodloni gofynion Deddf newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Mae’n ystyried pa arfer effeithiol sy’n bodoli mewn ysgolion a lleoliadau ar hyn o bryd a fydd yn cefnogi’r diwygiadau yn y dyfodol. Yr adroddiad hwn yw’r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau thematig am anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn helpu ffurfio’r broses ddiwygio, a’i chefnogi.

Mae’r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i’r rheiny sy’n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol a sefydliadau perthnasol eraill fel sefydliadau addysg bellach a chyrff iechyd. Mae’r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos i awdurdodau lleol ac ysgolion eu hystyried.

Mae canfyddiadau’r adroddiad yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth arolygu ysgolion. Yn ychwanegol, cynhaliodd arolygwyr gyfweliadau dros y ffôn gydag amrywiaeth o ysgolion i archwilio arfer lwyddiannus sy’n cefnogi’r agenda trawsnewid ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, derbyniodd arolygwyr dystiolaeth o arolwg a anfonwyd i ysgolion. Ceir manylion am sail y dystiolaeth yn yr atodiad.

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Wedyn, derbyniodd y ddeddfwriaeth Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018 a daeth yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (‘y Ddeddf’: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae’r Ddeddf yn disodli deddfwriaeth ynghylch anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Cofnodwyd diben cyffredinol y Ddeddf mewn tri amcan trosfwaol ac 11 nod craidd. Dyma’r tri amcan trosfwaol yn y Ddeddf:

1. Darparu fframwaith deddfwriaethol unedig i gynorthwyo plant a phobl ifanc 0-25 oed ag ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau)
2. Hyrwyddo proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol, sy’n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol

3 Cael system deg a thryloyw i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau

Er mwyn gwireddu'r amcanion trosfwaol, mae gan Lywodraeth Cymru 11 nod craidd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

1 **Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' (AAD) â'r term newydd ADY. Bydd y term 'darpariaeth addysgol arbennig' yn cael ei ddisodli â 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' (DDdY).

2 **Ystod oedran 0 i 25 oed:** Mae'r Ddeddf yn dod â'r systemau deddfwriaethol presennol a gwahanol at ei gilydd ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag anghenion addysgol arbennig a phobl ifanc mewn addysg bellach (AB) sydd ag AAD. O ganlyniad, bydd y drefn i drosglwyddo dysgwyr rhwng ysgol ac addysg ôl-16 yn gwella er mwyn galluogi tegwch gwell o ran cymorth a hawliau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

3 **Cynllun unedig:** Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) i ddisodli'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau AAA ac AAD statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion ac AB. Mae hyn yn cynnwys datganiadau o AAA, cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer dysgwyr a gynorthwyir trwy weithredu gan yr ysgol/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar neu weithredu gan yr ysgol a mwy/gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy, a chynlluniau dysgu a medrau a gynhelir trwy asesiadau o dan adran 140 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000).

4 **Cyfranogiad cynyddol plant a phobl ifanc:** Mae'r Ddeddf yn gofyn y dylai safbwyntiau plant, eu rhieni a phobl ifanc gael eu hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio.

5 **Dyheadau uchel a deilliannau gwell:** Bydd pwyslais CDUau ar drefnu darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau pendant sy'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at y plentyn neu'r person ifanc yn cyflawni ei lawn botensial.

6 **System symlach a llai gwrthwynebol:** Bydd y broses o lunio a diwygio CDU yn llawer symlach nag ydyw ar hyn o bryd, a dylai datganiadau o AAA osgoi natur wrthwynebol y dull presennol, gor-fiwrocrataidd.

7 **Cydweithio cynyddol:** Bydd y system newydd yn cefnogi ffocws cryf ar gydweithio. Bydd gan yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol, rôl allweddol mewn cydweithio i gyflwyno cymorth effeithlon, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar blant ar gyfer dysgwyr ag ADY. I gefnogi cydweithio, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO). Bydd gan Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig rôl ganolog mewn gwella graddau ac effeithiolrwydd y cydweithio rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wrth gyflwyno gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Bydd gofyn i ysgolion a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a SABau, gael Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) dynodedig. Bydd gofyn i awdurdodau lleol benodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i gydlynu ei swyddogaethau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn lleoliadau a gynhelir eto.

8 **Osgoi anghytuno a datrys anghytuno yn gynharach:** Bydd y system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau, pan fydd anghytuno'n digwydd am CDU neu'r ddarpariaeth y mae'n ei gynnwys, fod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol sy'n bosibl.

9 **Hawliau apelio clir a chyson:** Pan na ellir datrys anghytuno am gynnwys neu ddarpariaeth CDU ar y lefel leol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i gael CDU, neu'r rheiny sy'n credu y dylent gael CDU (a'u rhieni yn achosion y rheiny o dan 16 oed), hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, sef Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) ar hyn o bryd, ond sydd wedi cael ei ailenwi gan y Ddeddf yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

10 **Cod gorfodol:** Wrth ymateb i alwadau am God cryfach y gellir ei orfodi, bydd y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf yn cael eu cefnogi gan God ADY statudol newydd.

11 **System ddwyieithog:** Bydd gofyn i wasanaethau ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ar y plentyn neu'r person ifanc; bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus, yn hytrach na phenderfyniad untro. Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg, rhaid cofnodi hyn yn y CDU, a rhaid cymryd 'yr holl gamau rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

O fis Medi 2020, bydd unrhyw ddysgwr y nodwyd yn ddiweddar bod ganddo ADY, yn cael cymorth o dan y trefniadau newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf, a deddfwriaeth eilaidd a wnaed o dan y Ddeddf a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cod ADY). Bydd dysgwyr o fewn y system bresennol yn trosglwyddo dros gyfnod o dair blynedd fel rhan o ddull graddol. Mae'r camau gweithredu allweddol wedi eu crynhoi yn yr amserlen ganlynol.

| | |
|---|---|
| Medi 2018-2023 | Mae'r fframwaith AAA cyfreithiol presennol o dan Ddeddf Addysg 1996 (Prydain Fawr, 1996) a Chod Ymarfer AAA (2004) yn parhau i fod ar waith tan ddiwedd y cyfnod gweithredu, y disgwylir y bydd rhwng Medi 2020-2021 a Medi 2022-2023. Bydd y system bresennol yn cael ei disodli'n raddol gan y system newydd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol barhau i gyflawni eu swyddogaethau a bodloni dyletswyddau presennol o dan y system AAA bresennol hyd nes caiff y system ADY newydd ei chyflwyno'n llawn. |
| Haf 2018 | Cyhoeddi'r canllaw yn unol â'r amserlenni ar gyfer rhoi CDUau ar waith ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol, ac yn iau. Y canllaw yw'r cyntaf mewn cyfres o ganllawiau a fydd yn amlinellu sut bydd agweddau penodol ar y Ddeddf yn cael eu rhoi ar waith. |
| Hydref 2018 | Ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft, a fydd yn darparu'r rhan fwyaf o fanylion ar gyfer y ffordd y bydd asesiadau a phenderfyniadau am ddarpariaeth yn cael eu gwneud. |
| Diwedd 2019 | Cyhoeddi'r Cod ADY a deddfwriaeth ategol. |
| Ionawr 2020 ymlaen | Hyfforddiant i gefnogi gweithredu. |
| Medi 2020 | Bydd y Ddeddf, y Cod ADY a'r systemau newydd ar waith. Bydd unrhyw ddysgwr y nodwyd yn ddiweddar bod ganddo ADY yn cael cymorth o dan y trefniadau newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf. |

| | |
|---|---|
| Medi 2020 – Gorffennaf 2023 | Bydd dysgwyr y cefnogir eu AAA/ADY trwy ddatganiadau ac o dan Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn trosglwyddo i'r system newydd o CDUau. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd hyn yn canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n agosáu at bwyntiau dilyniant allweddol (er enghraifft rhwng cyfnodau allweddol) yn y lle cyntaf. |

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses i ddiwygio ADY trwy ddeunyddiau hyfforddiant ac arweiniad parhaus a rhaglen o gynlluniau peilot. Er enghraifft, wrth baratoi ar gyfer y newidiadau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ac arfer orau mewn arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Llywodraeth Cymru, 2015), sy'n anelu at wneud yn siŵr fod ymarferwyr yn gweithio gyda disgybl i gael dealltwriaeth well o'i safbwyntiau, ei nodau a'i anghenion, ac yn gweithredu yn unol â'r rhain wrth gynllunio a chyflwyno ei gymorth. Bu rhaglen hyfforddi eang mewn perthynas ag arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a gyflwynodd lawer o'r dulliau sy'n dod i'r amlwg o ran arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

1 Rhwng 2015 a 2018, mae gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn dda neu'n well mewn dros naw o bob deg ysgol gynradd, saith o bob deg ysgol arbennig ac ysgol uwchradd, a thraean o UCDau. Mae gan yr ysgolion a'r UCDau hyn sydd ag arfer dda a rhagorol y nodweddion canlynol sy'n golygu eu bod mewn sefyllfa dda i drosglwyddo i'r system ADY newydd:

- ethos a diwylliant cynhwysol
- rolau arwain clir
- bod yn sefydliad dysgu
- dyheadau uchel yn seiliedig ar arfer asesu gref
- gweithio gyda phartneriaid
- buddsoddi mewn staff
- cynorthwyo rhieni a disgyblion
- prosesau cryf ar gyfer gwella'r ysgol

2 Mae gan fwyafrif yr ysgolion ymwybyddiaeth dda o'r newidiadau sydd wedi eu cynllunio o dan Ddeddf newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Hysbysir llawer o ysgolion am y diwygiadau ADY gan uwch staff sydd â chyfrifoldeb am AAA, fel y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (CydAAA). Mae tua hanner yr ysgolion yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf trwy ddiddordeb personol.

3 Mae bron pob CydAAA/CydADY ysgol wedi derbyn hyfforddiant a chymorth gan yr awdurdod lleol ar y system ADY newydd sydd ar ddod. Canolbwyntiwyd yn benodol ar gyflwyno arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

4 O ganlyniad, mae llawer o ysgolion a staff yn ymwybodol o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae mwyafrif o ysgolion eisoes yn cyflwyno'r dull gyda staff, disgyblion a rhieni. Yn gyffredinol, mae'r newid hwn o ran dull wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan staff. Ceir tystiolaeth o ysgolion yn darparu ystod o strategaethau i ymgysylltu'n weithredol â rhieni, gan gynnwys cynnal sesiynau gwybodaeth dargedig a chreu DVDau i rannu'r gwaith y maent yn ei wneud gyda rhieni. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn dangos bod cynnwys disgyblion yn fwy yn eu dysgu ac wrth osod eu targedau yn gallu eu grymuso a gwella lles ac agweddau at ddysgu. I rai ysgolion, fel y rheiny sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot, mae'r arfer hon yn fwy sefydledig nag ydyw mewn ysgolion eraill.

5 Mae bron pob ysgol yn cydnabod bod safbwyntiau disgyblion yn bwysig wrth lywio eu cynllunio. Dywed llawer o ysgolion eu bod yn ennill dealltwriaeth well o anghenion y plentyn pan fyddant yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae llawer o ysgolion yn credu bod disgyblion yn gwybod pwy sy'n cydlynu eu cymorth, a phan fo'n briodol, gall disgyblion gyfrannu at y broses a gallant ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. O ganlyniad, mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn credu bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'u hanghenion ac yn ymgysylltu â'r broses.

6 O ganlyniad i arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae ysgolion yn gweithio'n agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r plentyn, fel y gwasanaethau cymdeithasol neu ddarpariaeth iechyd. I'r ysgolion hynny sydd wedi sefydlu'r broses hon, mae effaith y dull amlasiantaethol hwn ar gyfer y disgybl a'r rhiant yn gadarnhaol. Dywed mwyafrif yr ysgolion fod asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r plentyn a'i anghenion trwy ddulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

7 Mae llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r Cod ADY drafft a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017a). Defnyddir y Cod drafft i gynorthwyo ysgolion i adolygu darpariaeth bresennol a dechrau ffurfio'r defnydd o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mewn ychydig o achosion, defnyddir y Cod drafft i lywio trafodaethau cynnar ar gyfer rhoi CDUau ar waith, er bod hyn yn y camau cychwynnol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae ychydig o ysgolion yn canolbwyntio ar arbrofi â defnyddio CDUau trwy ymgynghori â'u hawdurdodau lleol.

8 Mae angen gwella ychydig o agweddau ar arfer bresennol er mwyn i'r agenda diwygio a thrawsnewid ADY gyflawni'r deilliannau bwriadedig. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r arfer o asesu ac olrhain cynnydd disgyblion unigol yn wan. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gynorthwyo disgyblion ag AAA. Yn ychwanegol, nid yw ysgolion bob amser yn rhannu gwybodaeth yn ddigon da ag asiantaethau eraill i ddatblygu darlun llawn o anghenion disgybl.

9 Ledled Cymru, mae gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o ran AAA yn gyffredinol, ac anghenion penodol y disgyblion y maent yn eu haddysgu, yn amrywiol. Nid yw athrawon yn gwahaniaethu nac yn addasu eu dulliau addysgu'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion ag AAA nac yn defnyddio strategaethau awgrymedig sydd wedi'u cynnwys mewn cyngor neu CAUau/CDUau.

10 Nid oes digon o ysgolion yn blaenoriaethu hyfforddiant ysgol gyfan ar AAA nac yn gwneud digon i ddatblygu dulliau ysgol gyfan cynhwysol a pherchnogaeth o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Nid ydynt yn gweithio'n ddigon agos ag ysgolion eraill i rannu eu harfer dda neu'u staff a'u hadnoddau arbenigol.

11 Mae yna feysydd lle nad yw manteision dulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael eu gwireddu eto. Er enghraifft, mewn tua hanner yr ysgolion yn yr arolwg hwn, dim ond y CydAAA/CydADY sydd wedi cael ei hyfforddi mewn arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac felly nid yw'r arfer wedi cael ei mabwysiadu ar draws yr ysgol. Mae lleiafrif o ysgolion yn teimlo bod asiantaethau eraill yn glir yn eu hymrwymiad i gynorthwyo'r disgybl a darparu gwybodaeth i gefnogi'r broses neu fynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei roi ar waith y mae diwygio ADY.

12 Mae ysgolion sydd wedi mabwysiadu dulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi datblygu systemau cyfathrebu da gyda rhieni.

## Argymhelliad

**Dylai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion:**

A1 Sicrhau eu bod yn cael yr holl ddeunyddiau arweiniad a hyfforddiant a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a chefnogi staff i weithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol.

## Beth mae ysgolion effeithiol yn ei wneud yn dda?

13 Rhwng 2015 a 2018, mae gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn dda neu'n well mewn dros naw o bob deg ysgol gynradd, saith o bob deg ysgol arbennig ac ysgol uwchradd, ac mewn traean o UCDau.

14 Yn yr ysgolion a'r UCDau hyn sydd â darpariaeth dda neu ragorol, ceir y nodweddion canlynol sy'n golygu eu bod mewn sefyllfa dda i drosglwyddo i'r system ADY newydd:

- ethos a diwylliant cynhwysol
- rolau arwain clir
- bod yn sefydliad dysgu
- dyheadau uchel yn seiliedig ar arfer asesu gref
- gweithio gyda phartneriaid
- buddsoddi mewn staff
- cynorthwyo rhieni a disgyblion
- prosesau cryf ar gyfer gwella'r ysgol

Disgrifir pob nodwedd yn fanylach isod.

### Ethos a diwylliant cynhwysol

15 Mae arweinwyr yn yr ysgolion a'r UCDau hyn wedi creu ethos a diwylliant lle caiff amrywiaeth ei chydnabod, ei derbyn a'i dathlu. Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth glir lle caiff rolau a chyfrifoldebau eu deall yn dda gan staff, disgyblion a rhieni.

16 Yn Ysgol Arbennig Crownbridge, mae dulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i ethos yr ysgol. Ceir disgwyliadau clir yn yr ysgol ar gyfer arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cael eu deall gan bob un o'r staff.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Arbennig Crownbridge yn defnyddio dull ysgol gyfan o ran darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol Crownbridge yw'r unig ysgol arbennig yn Nhorfaen, ac mae'n cynnwys prif safle yng Nghwmbrân ac is-leoliad yn Ysgol Gynradd Penygarn ym Mhont-y-pŵl. Mae ganddi ddarpariaeth ar gyfer 110 o ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed. Mae gan ddisgyblion ystod o anghenion sylweddol, cymhleth a lluosog.

**Cyd-destun a chefndir**

Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae'r dull hwn yn ysgogi'r modd y caiff y cwricwlwm ei gynllunio a'i gyflwyno, ar sail anghenion a diddordebau disgyblion unigol.

Datblygwyd y ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn dros gyfnod parhaus o fwy na chwe blynedd. Mae'r ysgol wedi parhau i addasu eu rhaglen i fod yn un sy'n bwrpasol y gellir ei defnyddio gyda phob disgybl.

**Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth**

Mae dull yr ysgol ar lefel disgybl unigol yn cynnwys proffiliau un dudalen, gwybodaeth ‘sy’n bwysig i’ ac ‘sy’n bwysig ar gyfer’, gwybodaeth am ‘beth sy’n gweithio / hyd yn oed yn well os’, cryfderau a heriau, targedau personoledig, cynllunio camau gweithredu a siartiau cyfathrebu.  Cofnodir y wybodaeth hon trwy amrywiaeth o gyfarfodydd adolygu gyda rhieni ac asiantaethau partner.

Ar draws yr ysgol gyfan, mae gan arweinwyr systemau cryf i olrhain cynnydd disgyblion, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog.  Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gyda phartneriaid eraill ac yn cynnwys targedau amlasiantaethol yn eu dull ysgol gyfan.  Ceir cyfathrebu cryf a rhoddir cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr, staff a phartneriaid rannu arfer a chynllunio gwelliannau.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Ceir disgwyliadau clir yn yr ysgol ar gyfer arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae pob un o’r athrawon yn eu deall.  Mae uwch arweinwyr yn wybodus am ansawdd dulliau arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr ysgol, ac maent yn creu cynlluniau gweithredu ffocysedig i gynnal a gwella safonau.  Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau unigol dros gyfnod cynaledig.  Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni.

### Rolau arwain clir

17 Mae’r Ddeddf yn cyflwyno rôl statudol newydd, sef: Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY).  Rhaid i bob ysgol prif ffrwd a gynhelir, meithrinfa a gynhelir, UCD, a SAB yng Nghymru ddynodi unigolyn, neu fwy nag un person, i fod yn CydADY.  Bydd gan y CydADY gyfrifoldeb am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.  Nid yw dynodi CydADY yn dileu’r angen am hyfforddiant ehangach i’r gweithlu.  Mae cyfrifoldeb gan bob un o’r staff sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc am sicrhau bod anghenion y dysgwyr yn cael eu nodi ac y darperir ar eu cyfer.

18 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, ceir rolau sydd eisoes wedi’u diffinio’n glir, fel y CydAAA.  Yn yr ysgolion hyn, cynorthwyir y CydADY trwy hyfforddiant o ansawdd da a neilltuo amser priodol i ymgymryd â’r rôl.  Yn yr enghraifft orau, mae’r CydAAA yn rhan o drafodaethau’r tîm arweinyddiaeth a gall ddylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth yn gadarnhaol ar gyfer disgyblion ag AAA ar draws yr ysgol.

19 Mae Ysgol Gynradd Trewiliam yn Rhondda Cynon Taf wedi elwa ar amrywiaeth o hyfforddiant i ddatblygu rôl y CydAAA/CydADY i baratoi ar gyfer trawsnewid ADY.  Mae’r CydAAA wedi cael ei hyfforddi i gynrychioli’r ysgol, sy’n ‘Ysgol sy’n Hyrwyddo Arfer sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn’.  Mae Cydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY mewn Ysgolion Hyrwyddo wedi cael hyfforddiant ar ddulliau arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda phwyslais penodol ar ddull PATH (Hyrwyddo Cyflawniad Trwy Obaith).  Mae’r dull hwn yn meithrin ymdeimlad o rymuso ymhlith yr holl ddisgyblion.  Mae hyn wedi cynnwys y CydAAA/CydADY yn cyfarfod â rhieni i drafod y

newidiadau, darparu hyfforddiant ysgol gyfan a rhoi'r proffil un dudalen (OPP) ar waith ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Trewiliam yn cyflwyno adolygiadau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phroffiliau un dudalen**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae gan Ysgol Gynradd Trewiliam tua 340 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 22% ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim a 65% ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn cynnal dau Ddosbarth Cymorth Dysgu (DCD) yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anhwylderau cyfathrebu. Yn ychwanegol, mae tri dosbarth cymorth prif ffrwd a ariennir gan yr ysgol. Mae gan y dosbarthiadau hyn gymhareb staff: disgybl uwch.

**Cyd-destun a chefndir**

Roedd yr ysgol yn rhagweithiol o ran sicrhau bod aelodau allweddol o staff wedi cael eu hyfforddi mewn datblygu a gweithredu dull arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau ADY.

**Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth**

Mynychodd y CydAAA hyfforddiant ar ddulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac wrth weithio gyda'r awdurdod lleol, daeth yr ysgol yn 'Ysgol sy'n Hyrwyddo Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn'. Cafodd y CydAAA ddeuddydd o hyfforddiant gan ganolbwyntio ar y dull Cynllunio Dewisiadau Eraill er budd Gobaith (PATH).

Cyfarfu'r CydAAA â rhieni disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 oedd â datganiad neu ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Rhoddwyd gwybod i rieni am y newidiadau i ddisgyblion ag AAA fel rhan o ddiwygio ADY ac fe'u cyflwynwyd i broffiliau un dudalen ar gyfer eu plentyn. Gofynnwyd i rieni lenwi a dychwelyd llyfrynnau canllawiau ar gyfer dysgwyr a theuluoedd, sef 'Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, meddyliodd rhieni am yr hyn y maent yn ei 'hoffi a'i edmygu', beth sy'n 'bwysig i' a beth 'sy'n bwysig ar gyfer' eu plentyn. Defnyddiodd y CydAAA y wybodaeth gan rieni a dysgwyr i ddatblygu'r proffiliau un dudalen, a rannwyd gyda rhieni a disgyblion ar gyfer rhoi sylwadau arnynt.

Rhannwyd y proffil un dudalen cyflawn gyda phob un o'r staff i gefnogi eu gwaith gyda disgyblion.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Trwy siarad mwy gyda disgyblion a'u teuluoedd, mae staff yn datblygu dealltwriaeth well o bob plentyn a'i ddiddordebau. Er enghraifft, fe wnaethant ddarganfod bod un disgybl wrth ei fodd yn gwneud jig-sos gyda'i nain. O ganlyniad, mae staff wedi eu paratoi'n well i gynnig gweithgareddau sy'n cefnogi diddordebau disgyblion ac yn gwella ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Dywed staff a rhieni fod eu perthnasoedd yn well. Mae rhieni yn arbennig yn gwerthfawrogi'r sylwadau cadarnhaol am eu plentyn.

Mae plant yn mwynhau bod yn rhan o'r broses ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amdanyn nhw eu hunain.  Roedd staff yn ei chael yn haws cwblhau adolygiadau datganiad ac mae'r holl adolygiadau ar gyfer disgyblion mewn dosbarthiadau arbenigol a phrif ffrwd wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag adborth eithriadol o gadarnhaol.  Mae sylwadau rhieni'n cynnwys:

- “Dyna oedd yr adolygiad gorau i mi fod ynddo!”
- “Rydw i'n teimlo fel ein bod wedi siarad am fy mab, nid y ddogfen”
- “Roedd yn braf peidio â chael bwrdd rhyngom ni”
- “Roedd y ffordd hon yn fwy difyr, yn fy marn i”
- “Roedd yn fwy unigol”

### Bod yn sefydliad dysgu

20 Yn aml, mae ysgolion y bernir eu bod yn dda neu'n rhagorol mewn arolygiad yn creu diwylliant dysgu proffesiynol lle caiff pob un o'r staff eu grymuso i fyfyrio ar eu harfer eu hunain.  Mae ysgolion o'r fath yn datblygu a rhannu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgu pob plentyn a pherson ifanc.  Maent yn chwilio am arfer orau mewn mannau eraill ac yn ei hefelychu.  Yn ychwanegol, maent yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill trwy gynnig cymorth ac yn dysgu gyda'i gilydd i ysgogi gwelliant.  Mae'r ysgolion hyn yn gweithio yn unol â model integredig o'r ysgol fel sefydliad dysgu.

21 Mae Ysgol Arbennig Greenfield ym Merthyr Tudful, er enghraifft, yn rhannu ei harferion da â'r consortiwm addysg rhanbarthol a'r awdurdod lleol yn rheolaidd.  Mae'r ysgol yn cymryd rôl flaenllaw mewn cynorthwyo llawer o ysgolion prif ffrwd i reoli ymddygiad heriol ac mae staff yn gweithio'n agos ag ysgolion eraill i ddatblygu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr awdurdod lleol.

### Dyheadau uchel yn seiliedig ar arfer asesu gref

22 Mewn ysgolion da a rhagorol, ceir dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion.  Mae CAUau wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion.  Mae staff yn defnyddio ystod o asesiadau priodol i bennu cryfderau a meysydd i'w gwella ar gyfer pob disgybl.  O ganlyniad, mae targedau'n ystyrlon i bob unigolyn ac fe gaiff y cynnydd a wna disgyblion ei olrhain yn glir.

23 Gellir gweld enghraifft o hyn yn Ysgol Gynradd Nant Celyn yn Nhorfaen, sydd â dwy ganolfan adnoddau anghenion arbennig.  Defnyddiwyd yr arfer dda yn y dosbarthiadau hyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion prif ffrwd yr ysgol sydd ag AAA.  Datblygwyd cymorth allymestyn mewnol gan staff yn gweithio yn y darpariaethau arbenigol, i rannu arfer, gan ganolbwyntio ar wella asesu a chymorth ar gyfer disgyblion prif ffrwd ag AAA.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau staff prif ffrwd ac wedi gwella'r ffordd y maent yn gosod targedau pwrpasol i ddangos cynnydd.  O ganlyniad, mae lles disgyblion wedi gwella, mae'r adborth gan rieni yn gadarnhaol a bu gostyngiad mewn ffigurau gwaharddiadau cyfnod penodol.

## Astudiaeth achos 3: Sicrhau a hyrwyddo cynhwysiant yn Ysgol Gynradd Nant Celyn, Torfaen

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Nant Celyn yn darparu addysg ar gyfer tua 450 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) a nam ar y clyw. Mae nifer y disgyblion yn y brif ffrwd sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi bod yn cynyddu dros gyfnod, ac mae gan 32% o ddisgyblion AAA.

### Cyd-destun a chefndir

Mae'r ddarpariaeth yn y dosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn gryfder allweddol yn yr ysgol. Mae hyn o ganlyniad i lefel uchel o hyfforddiant, systemau wedi'u strwythuro'n ofalus a dull arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio ar gyfer disgyblion unigol ar draws pob maes. Mae perthnasoedd cefnogol rhwng staff gyda disgyblion a rhieni.

Yn 2016, roedd gan yr ysgol 12 disgybl yn yr ysgol prif ffrwd a oedd wedi cael diagnosis o ASA, yn ogystal â'r disgyblion hynny yn y dosbarth arbenigol. Hefyd, roedd un deg pedwar o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu cymhleth a heriol. Gwelodd yr ysgol ei bod yn gynyddol heriol darparu cwricwlwm priodol i ymgysylltu'n llawn â'r 26 disgybl hyn, a bodloni eu hanghenion. O ganlyniad, bu cynnydd yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

### Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth

Penderfynodd yr ysgol rannu'r arfer dda a sefydlwyd yn y dosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig i gynorthwyo'r disgyblion targedig yn y brif ffrwd. Sefydlwyd timau allymestyn oddi mewn i'r dosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig ac fe wnaeth disgyblion prif ffrwd allu elwa ar sesiynau strwythuredig penodol yn y dosbarth arbenigol.

Mabwysiadwyd y cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob disgybl ag AAA. Ymgymerodd pennaeth y dosbarth arbenigol â rôl rheolwr cynhwysiant a chynlluniodd gyfres o newidiadau. Cwblhaodd holl staff yr ysgol hyfforddiant ar ddulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gosod targedau ffocysedig. O ganlyniad, gwneir defnydd gwell o asesiadau i gynllunio ac adolygu darpariaeth yn rheolaidd.

Rhoddodd yr ysgol bwyslais cryf ar gymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Er enghraifft, cyflwynwyd lego a therapi chwarae a chynhaliwyd sesiynau 'archwilio'r emosiynau' trwy gydol pob dydd, gan ddechrau yn ystod clwb brecwast anogaeth.

Cryfhawyd y cyfnod pontio rhwng y sector cynradd ac uwchradd yn sylweddol. Y rheolwr cynhwysiant yw pennaeth y canolfannau adnoddau

cynradd ac uwchradd ac mae'r trefniant hwn yn darparu parhad a chymorth. Caiff athrawon cynradd ac uwchradd eu cynnwys mewn adolygiadau cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi trosglwyddo manylach.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae asesu a chymorth mwy trylwyr a phriodol wedi codi safonau ar gyfer disgyblion ar draws dosbarthiadau prif ffrwd. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth lawn ac maent yn hyderus fod yr ysgol yn bodloni anghenion unigol eu plentyn.

Yn 2015-2016, adroddodd yr ysgol fod disgyblion wedi colli 53.5 diwrnod o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol, a ostyngodd i 21 diwrnod yn 2016-2017 ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw waharddiadau cyfnod penodol wedi bod yn 2017-2018.

## Gweithio gyda phartneriaid

24 Egwyddor allweddol o'r Cod ADY drafft (Llywodraeth Cymru, 2017a) yw bod pawb sy'n ymwneud â darparu cymorth i blant a phobl ifanc ac ADY yn gweithio gyda'i gilydd er lles y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â chefnogi anghenion y plentyn neu'r person ifanc gefnogi egwyddorion arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er mwyn gweithio gyda disgyblion yn ystyrlon, gall ysgolion sydd â chysylltiadau tra datblygedig â gwasanaethau cymorth perthnasol ddarparu lefel mewnbwn fwy unigoledig.

25 Gellir gweld enghraifft o hyn yn UCD Torfaen, sydd wedi sefydlu cynlluniau dysgu unigol (CDUau) sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar gael i bob asiantaeth sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc. Mae'r CDU yn fan cyfeirio a gwybodaeth canolog ar gyfer pob asiantaeth sy'n ymwneud ag unigolyn, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaeth troseddau ieuenctid. Mae pob asiantaeth yn cyfrannu at y CDU ac yn ei ddiweddaru, ac mae hyn wedi arwain at ddull mwy cydlynus ac adborth cadarnhaol gan ddisgyblion a'u rhieni.

**Astudiaeth achos 4: Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Torfaen – datblygu arfer amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Dysgu Unigol (CDUau)**

**Gwybodaeth am y lleoliad**

Mae UCD Torfaen wedi'i lleoli ym Mhont-y-pŵl ac mae tua 60 o ddisgyblion ar ei chofrestr ar gyfartaledd. Mae'r ddarpariaeth oedran uwchradd yn cynnwys Tŷ Glyn, ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a New Inn ar gyfer disgyblion pryderus. Mae'r UCD yn darparu gwersi i ddisgyblion ag anghenion meddygol a chymorth allymestyn ar gyfer disgyblion o bob oedran hefyd.

**Cyd-destun a chefndir**

Bu'r UCD yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu system ar gyfer adolygiadau o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDUau sy'n

dryloyw a chyson.  Trwy weithio gyda phartneriaid, maent wedi sicrhau bod pawb ar delerau cyfartal.

**Disgrifiad o weithgaredd**

Mae pob disgybl sy'n ymuno â'r UCD yn cwblhau proffil un dudalen sy'n cael ei arddangos ym mhob ystafell ddosbarth a ddefnyddir gan y disgybl. Mae'r proffil un dudalen yn cofnodi diddordebau, gweithgareddau a hoffterau a chasbethau disgybl.  Fe'i defnyddir i helpu pob un o'r staff i gynllunio gweithgareddau ar sail yr hyn y maent yn ei wybod am ddisgybl, ac mae'n llywio trafodaethau a CDUau.

Wedyn, caiff CDU ei ddatblygu ar gyfer pob disgybl ac mae'n gyfeirbwynt canolog ar gyfer pob asiantaeth sydd angen gwybodaeth am y disgybl unigol.  Caiff y CDU ei adolygu bob hanner tymor ac ychwanegir ato'n barhaus fel dogfen 'dreigl' gydag adrannau ar gyfer pob hanner tymor. Mae'r CDU yn cynnwys ystod eang o wybodaeth fuddiol i gynorthwyo staff i weithio gyda disgybl.  Mae'r CDU yn cynnwys manylion personol, gan gynnwys manylion am bresenoldeb, amserlen a chamau gweithredu i gynyddu neu bersonoli darpariaeth.  Hefyd, mae'r CDU yn cysylltu â'r Cynllun Asesu Risg a'r Cynllun Ymdriniaeth Bersonol ac mae'n cynnwys strategaethau unigol i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.  Hefyd, mae'r CDU yn cadw'r holl ddata asesu ac unrhyw dargedau tymor byr a thymor hir sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, ymddygiad a datblygiad personol.

Bu awdurdod lleol Torfaen yn arwain hyfforddiant i gynorthwyo staff yn yr ysgol a phartneriaid allweddol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o adolygiad yn canolbwyntio ar yr unigolyn.  Yn dilyn hyfforddiant, datblygwyd strwythur ysgol gyfan o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.  Gwahoddir pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r disgybl i gyfarfodydd adolygu bob hanner tymor.  Cofnodir gwybodaeth o'r adolygiad cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys sylwadau gan y disgybl, y rhiant/gofalwr, yr ysgol ac asiantaethau eraill, pwyntiau gweithredu a gytunwyd ac adolygiad o bwyntiau gweithredu blaenorol, yn y CDU.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae'r UCD wedi datblygu dulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ysgol gyfan sy'n cael eu personoli i'r disgybl unigol, yn addysgiadol i bawb, ac yn ddefnyddiol i bob asiantaeth o ddydd i ddydd.

Mae gwybodaeth gyfoes am ddisgyblion unigol ar gael yn hawdd i staff. Mae'r CDU yn gyfeirbwynt canolog i bob asiantaeth ei ddefnyddio.  Caiff pawb ei hysbysu'n well am y cynnydd a wna disgyblion.  Caiff disgyblion unigol eu gwerthfawrogi ac maent yn ganolog i'r broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dywed disgyblion eu bod yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi yn yr UCD.

26 Fel yr amlinellir yn y Cod ADY drafft (Llywodraeth Cymru 2017a, pennod 10), dylai CDU ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gasglu a chyflwyno gwybodaeth sy'n nodi ADY y disgybl ac yn pennu ei DDdY. Dylid diwygio CDUau mewn cyfarfodydd CDU gan ddefnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Buddsoddi mewn staff

27 Fel sefydliad dysgu, mae gan ysgol y gallu i newid ac addasu yn unol ag amgylcheddau ac amgylchiadau newydd wrth i staff wireddu eu gweledigaeth yn unigol a gyda'i gilydd. Ffactor sy'n cyfrannu at gyflawni hyn yw'r system gyfathrebu dda sy'n darparu gwybodaeth berthnasol i staff am ddisgyblion. Enghraifft o hyn yw Ysgol Arbennig Heol Goffa yn Sir Gaerfyrddin. Yma, mae'r staff wedi cynyddu cyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer disgyblion a rhieni. Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi hen ennill ei phlwyf yn yr ysgol ers sawl blwyddyn. I adeiladu ar yr arfer dda hon, daeth yr ysgol yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. O ganlyniad, mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth dda o hoff ddulliau cyfathrebu disgyblion, a gwelwyd gwelliant mewn perthnasoedd gyda disgyblion a rhieni.

28 Mae ysgolion fel sefydliadau dysgu yn darparu cymorth a hyfforddiant priodol ar gyfer staff i sicrhau bod adnoddau, y cwricwlwm a dulliau addysgu yn cael eu haddasu'n briodol i fodloni anghenion addysgol arbennig disgyblion unigol. Yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn Wrecsam, mae staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r dull arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cafodd yr uwch dîm arweinyddiaeth hyfforddiant, a gyflwynwyd i'r holl staff ar draws yr ysgol. O ganlyniad i'r hyfforddiant, roedd pob un o'r staff yn fwy ymwybodol o wybodaeth allweddol am ddisgyblion unigol. Helpodd hyn y staff yn well i gefnogi eu lles, eu hymgysylltiad â dysgu a'u cyflawniad.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn Wrecsam – cyflwyno proffiliau un dudalen gyda dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar y plentyn at asesu a dysgu**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol wirfoddol a gynorthwyir Gatholig yng nghanol Wrecsam yw Ysgol y Santes Fair. Mae tua 400 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, rhwng 3 ac 11 oed. Mae bron pob un o'r disgyblion wedi eu bedyddio'n Gatholig. Mae gan ryw 9% o ddisgyblion AAA.

**Cyd-destun a chefndir**

Wedi i uwch arweinwyr gael hyfforddiant mewn arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyflwynodd arweinwyr y dull i weddill y staff. Cyflwynwyd y proffil un dudalen ar ôl cyfnod prawf. Mae'r proffil un dudalen yn amlygu cryfderau plentyn, heriau, a'r ffordd ymlaen.

**Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth**

Arbrofwyd â'r fenter gyda grŵp o blant y nodwyd bod ganddynt AAA/eu bod yn agored i niwed.

Mae proffiliau un dudalen sy’n briodol i oedran yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr hyn sy’n bwysig i blentyn a’r hyn sy’n bwysig i fodloni ei anghenion. Hefyd, maent yn cynnwys yr hyn y mae pobl eraill yn ei hoffi a’i edmygu am y plentyn, gan bwysleisio’i rinweddau a’i briodoleddau cadarnhaol a chanolbwyntio ar les y plentyn, a’i barodrwydd ar gyfer dysgu.

Mae’r proffil un dudalen yn allweddol i gynlluniau addysg unigol (CAUau) a chyfarfodydd adolygu blynyddol ac yn gyrru’r holl gyfarfodydd gyda rhieni ac asiantaethau allanol. Mae llais y disgybl a chyfranogiad rhieni yn rhan hanfodol o’r broses, ac ymgynghorir â nhw yn ystod pob cam.

Mae’r proffil un dudalen yn cefnogi trosglwyddo esmwyth o un dosbarth i’r llall, trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol, a throsglwyddo i’r ysgol uwchradd. Mae’r proffil un dudalen yn ddogfen werthfawr wrth gyfeirio at asiantaethau perthnasol eraill. Mae arweinwyr yr ysgol yn adolygu’r proffil un dudalen bob tymor i sicrhau ansawdd o ran y defnydd a wneir ohono a sicrhau ei bod yn ddogfen weithio gyfoes a phwrpasol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Defnyddiodd arweinwyr yr ysgol holiadur i ddisgyblion ac adborth gan y cyngor ysgol i arfarnu effaith cyflwyno’r proffil un dudalen. Defnyddiwyd yr adborth i ddatblygu proffil un dudalen ysgol gyfan ar y cyd.

Gwneir defnydd clir, cryno a chyfannol o’r proffil un dudalen, ac mae hyn yn arwain at gymorth a gwybodaeth ffocysedig o ran AAA mewn cyfarfodydd adolygu. Mae pob un o’r staff yn yr ysgol yn fwy ymwybodol o wybodaeth allweddol o safbwynt y plentyn i gefnogi ei les, ei ymgysylltiad â dysgu a’i gyflawniad.

Mae disgyblion yn teimlo bod eu safbwyntiau’n cael eu gwerthfawrogi a bod y cymorth a gynigir yn briodol i’w hanghenion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac wedi ymgysylltu, sy’n hapus i rannu eu syniadau am sut gall yr ysgol eu cynorthwyo.

## Cynorthwyo rhieni a disgyblion

29 Mae’r ysgolion mwyaf effeithiol yn darparu gwybodaeth a chymorth cyfoes i rieni. Mae rôl ysgolion mewn cynorthwyo rhieni i helpu eu plant i ddysgu yn fwy blaenllaw yn nhrefniadau arolygu newydd Estyn er mis Medi 2017.

30 O dan y Ddeddf, rhaid i weithwyr proffesiynol ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau’r plentyn neu’r person ifanc a’i rieni. Hefyd, rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod yr holl wybodaeth a’r cymorth angenrheidiol yn cael eu rhoi i’r plentyn neu’r person ifanc a’i rieni yn cael er mwyn gallu cyfranogi yn y penderfyniadau hynny. Mae defnyddio proffil un dudalen yn cefnogi’r ymglymiad a’r cymorth gwell ar gyfer plant, eu rhieni a phobl ifanc.

31 Gellir gweld enghraifft o hyn yng Nghanolfan y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam, sy’n darparu lleoedd asesu ar gyfer plant ag ystod eang o AAA rhwng 3 a 5 oed.

Datblygwyd gwaith partneriaeth cryf rhwng y cartref a’r ysgol trwy lawer o wahanol brosiectau a mentrau, gan gynnwys cydlynydd cartref-ysgol, sy’n cysylltu’n agos â rhieni, gan gynnig cymorth dros y ffôn bob wythnos. Mae ymglymiad rhieni wedi cael ei annog a’i feithrin hefyd trwy ddefnyddio storïau dysgu a’r grŵp ‘law yn llaw’. Cofnod o’r hyn y mae athro neu riant wedi gweld plentyn neu blant yn ei wneud yw stori ddysgu. Mae’n rhoi cipolwg o weithgareddau plentyn dros gyfnod penodol o amser (10 munud, er enghraifft). Daw’n stori ddysgu pan fydd yr oedolyn yn ychwanegu ei ddehongliad o gymwyseddau a thueddiadau’r plentyn tuag at ddysgu. Yn gyffredinol, caiff y stori ddysgu ei ffurfio gan yr oedolyn i amlygu’r hyn y mae’r plentyn yn gallu ei wneud ac yn ei wneud, yn hytrach na’r hyn nad yw’n gallu ei wneud.

**Astudiaeth achos 6: Canolfan y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam – paratoi ar gyfer y diwygiadau ADY**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol wedi’i lleoli yn ward Queensway ar ystâd Parc Caia yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw Canolfan y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam. Mae’n ddarpariaeth ag adnoddau, sy’n darparu lleoedd asesu i blant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) o dair i bump oed. Mae’r amrywiaeth eang o anghenion yn cynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA), anawsterau dysgu difrifol, syndromau cromosomaidd, ac anhwylderau’r synhwyrau.

**Cyd-destun a chefndir**

Mae Canolfan y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin perthnasoedd gyda rhieni. Mae’r ysgol yn ymdrechu i ymgorffori arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn yr ysgol, ac yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol disgyblion trwy bartneriaethau rhwng y cartref a’r ysgol.

**Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth**

Mae’r ysgol wedi datblygu sawl menter i gynnwys a chynorthwyo rhieni a theuluoedd. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio storïau dysgu, dyddiaduron cartref-ysgol a galwadau ffôn wythnosol i’r cartref. Mae’r mentrau hyn yn helpu sicrhau bod rhieni’n cael eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plentyn ac yn meithrin perthnasoedd agos rhwng yr ysgol a’r cartref.

Mae grŵp ‘law yn llaw’ yr ysgol yn cynnig cymorth teilwredig i rieni unigol am faterion fel arferion amser gwely, ymddygiad a defnyddio’r toiled. Mae hyfforddiant Makaton gan hyfforddwr Makaton cymwys a chyngor ar brydau iach gan weithwyr proffesiynol sy’n gweithio yn y ganolfan iechyd leol ar gael i rieni. Caiff rhieni eu hannog i rannu syniadau a phryderon a gofyn am gyngor ac arweiniad pan fydd angen.

Mae Canolfan y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth allymestyn, o’r enw Primary Steps, i ysgolion a lleoliadau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Caiff gwybodaeth a

dealltwriaeth helaeth yr ysgol am sut i reoli ymddygiad plant eu rhannu, ac mae staff yn cynnig strategaethau a chymorth i gydweithwyr wella deilliannau ar gyfer plant.

Mae arweinwyr wedi dechrau cynllunio ar gyfer y diwygiadau ADY ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob un o'r staff am y newidiadau. Bu ffocws penodol ar broffil un dudalen a bu'r ysgol yn rhan o brosiect peilot yn archwilio theori ac arfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fel rhan o'r prosiect, cyflwynodd yr ysgol broffiliau un dudalen ac egwyddorion cynllun datblygu unigol (CDU). Trwy weithio gyda'r awdurdod lleol a hyfforddiant staff, gwnaeth yr ysgol yn siŵr fod egwyddorion y proffil un dudalen yn cael eu cymhwyso ar draws yr ysgol a bod pob un o'r staff yn defnyddio CDUau lle bo'n briodol.

Cefnogwyd y newidiadau hyn trwy gynllun gwella'r ysgol a'r targedau rheoli perfformiad ar gyfer aelodau o'r uwch dîm rheoli sy'n ymwneud â gwelliannau AAA a darparu cydraddoldeb ar gyfer disgyblion ag AAA.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Datblygwyd y proffil un dudalen ymhellach ar draws yr ysgol, ac erbyn hyn, mae staff yn fwy hyderus yn defnyddio offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn y prosesau adolygu. Defnyddir apiau a thechnoleg yn dda i sicrhau bod gan bob plentyn ffyrdd o gyfleu eu dyheadau a chasglu adborth disgyblion. Mae rhieni'n gadarnhaol am y newidiadau ac yn dweud bod lleisiau disgyblion yn nodwedd gryfach o lawer o gyfarfodydd adolygu erbyn hyn.

32 Mae'r Cod ADY drafft (Llywodraeth Cymru, 2017a) yn amlinellu dyletswyddau a chamau gweithredu y dylid eu cymryd i ennyn diddordeb a grymuso plant, rhieni a phobl ifanc. Gellir gweld enghraifft o gyfranogiad gwell gan ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Darland yn Wrecsam lle mae cyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi arwain at welliant ym mhriodoldeb y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac agweddau dysgwyr atyn nhw eu hunain a'r ysgol. Bu cynnydd yn ymgysylltiad disgyblion â dysgu, ac mewn presenoldeb. Dywed disgyblion eu bod wedi elwa ar y cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u bod yn teimlo wedi eu grymuso.

**Astudiaeth achos 7: Ysgol Uwchradd Darland – grymuso disgyblion trwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gymunedol gymysg 11 i 16 oed yn Wrecsam yw Ysgol Uwchradd Darland. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Yr Orsedd a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae tua 850 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan ryw 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae gan yr ysgol ddwy ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, fel anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia.

**Cyd-destun a chefndir**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â seicolegwyr addysg yr awdurdod lleol i fodloni anghenion cymhleth disgyblion yn y canolfannau adnoddau. Roedd yr ysgol yn ysgol beilot i ddefnyddio ac adolygu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i archwilio'r modd y gellid datblygu'r arfer hon ymhellach i fodloni nodau'r Ddeddf.

**Disgrifiad o weithgaredd/strategaeth**

Yn Darland, roedd targed eisoes ar waith yn yr Adran AAA/ADY i sicrhau bod gan o leiaf y 22% o ddisgyblion ag AAA a oedd yn gysylltiedig â'r ganolfan adnoddau (disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig ar draws cyfnodau allweddol 3 a 4) eu cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu hunain erbyn diwedd y flwyddyn academaidd honno. Fe wnaethant sylweddoli nad oedd modd cyflawni'r amcan hwn os oedd y cynlluniau am fod yn ddefnyddiol i'r disgybl ac o fudd i'r lleoliad. Roedd angen hyfforddi mwy o staff mewn gweinyddu'r pecyn cymorth. Bu'n rhaid adolygu cynlluniau presennol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynyddu'r baich a lleihau allbwn. Yn ogystal â'r ffactorau hyn, roedd tystiolaeth y gellid cynorthwyo disgyblion ar draws yr ysgol gyfan trwy gynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Nodwyd disgyblion trwy drafodaethau a gynhaliwyd gyda phenaethiaid blwyddyn ac aelodau o'r tîm bugeiliol. Trwy gynnydd yn nifer yr hwyluswyr, cyfrannodd y defnydd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at arfer gynhwysol ragorol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Trwy sesiynau hyfforddi rheolaidd, mae pob ysgol beilot wedi datblygu'r arfer hon ymhellach. Er enghraifft, erbyn hyn, mae ysgolion yn ymgorffori'r adolygiad o'r cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion â datganiad AAA. Mae'r broses hon yn hysbysu pawb am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, ac yn caniatáu ar gyfer dull sy'n canolbwyntio ar ateb o wneud unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen ar gyfer y disgybl.

Yn sgil cyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bu gwelliant yn y ddarpariaeth ac yn agwedd y dysgwyr atyn nhw eu hunain a'r ysgol. Gellir mesur hyn yn glir o newid yn eu hymgysylltiad â dysgu, presenoldeb a'r cyfle cynyddol a gânt i fynychu gwersi prif ffrwd.

Mae'r disgyblion eu hunain wedi dweud eu bod wedi elwa ar yr amser a roddwyd iddynt, eu bod yn cael eu grymuso gan fod eu llais yn cael ei glywed ac yn teimlo rhyddhad o wybod bod pobl allweddol sy'n gysylltiedig â'u haddysg bellach yn fwy gwybodus am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'r ffordd orau o'u cynorthwyo.

Cyflwynwyd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Ysgol Darland o 2015, a'r flwyddyn ganlynol, adroddodd yr ysgol am gyfradd cyflawni 100% yn lefel 1 ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac aeth pob disgybl ymlaen i ddilyn cwrs addysgol amser llawn yn y sector ôl-16.

### Prosesau cryf ar gyfer gwella ysgolion

33 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio systemau asesu ac olrhain i nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Pan na fydd dysgwyr yn cyflawni cystal ag y gallent neu'u bod ar ei hôl hi yn eu gwaith, mae ysgolion yn darparu cymorth trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys rhaglenni ymyrraeth targedig a chymorth unigol wedi'i ddarparu gan gynorthwywyr ystafell ddosbarth. Pan fydd cymorth ychwanegol yn cael llai o effaith, mae hyn o ganlyniad i systemau olrhain a nodi gwael ar y cyfan. Yn yr ysgolion gorau, caiff effaith cymorth cynorthwyydd ystafell ddosbarth ei harfarnu'n dda a bydd yn cyd-fynd â phrosesau i wella'r ysgol.

## Pa feysydd y mae angen i ysgolion eu gwella?

34 Mae llawer o ysgolion mewn sefyllfa dda i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen er mwyn i ddiwygiadau ADY fod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ychydig o feysydd i'w gwella sy'n gyffredin i fwyafrif yr ysgolion ledled Cymru.

35 Mewn lleiafrif o ysgolion, ni chaiff cynnydd disgyblion unigol ei asesu a'i olrhain yn ddigon cryf. Efallai nad yw'r wybodaeth a ddelir yn cael ei diweddaru'n ddigon rheolaidd neu'n arfarnu cynnydd yn y meysydd pwysicaf ar gyfer pob disgybl. O ganlyniad, nid oes gan ysgolion ddealltwriaeth ddigon da o anghenion a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gynorthwyo disgyblion ag AAA.

36 Yn ychwanegol, nid yw ysgolion bob amser yn rhannu gwybodaeth yn ddigon da ag asiantaethau eraill i ddatblygu darlun llawn o anghenion disgybl. Hyd yn oed pan fydd gwybodaeth am asesiadau ar gael, ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu'n rheolaidd â staff allanol sy'n gweithio gyda disgyblion i sicrhau eu bod yn gallu teilwra eu dulliau yn y ffordd orau i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion.

37 Ledled Cymru, mae gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o ran AAA yn gyffredinol, ac o ran anghenion penodol y disgyblion y maent yn eu haddysgu, yn rhy amrywiol. Nid oes digon o ysgolion yn blaenoriaethu hyfforddiant ysgol gyfan ar AAA nac yn gwneud digon i ddatblygu dulliau ysgol gyfan cynhwysol a pherchnogaeth disgyblion ag AAA.

38 O ganlyniad, nid oes gan athrawon unigol yr hyder i reoli anghenion disgyblion neu nid oes ganddynt y ddealltwriaeth hanfodol o bwysigrwydd y strategaethau a nodwyd mewn CAU/CDU. Nid ydynt yn gwahaniaethu nac yn addasu eu dulliau addysgu yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion ag AAA nac yn defnyddio strategaethau awgrymedig sydd wedi eu cynnwys mewn cyngor neu CAUau/CDUau.

39 Yn rhy aml, ni chaiff arfer dda mewn perthynas ag AAA ei rhannu'n ehangach ymhlith yr athrawon mewn ysgolion neu rhwng ysgolion. Bydd hyn yn gynyddol bwysig trwy gyflwyno'r Cod ADY newydd. Yn ychwanegol, nid oes digon o enghreifftiau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn ffurfiol i rannu staff, adnoddau arbenigol ac arbenigedd.

40 Mae angen dull mwy cyson gan ysgolion wrth ymdrin â dealltwriaeth rhieni o ddiwygio ADY, a'u cyfraniadau gwerthfawr. Gellir cefnogi hyn ymhellach trwy gyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhieni, a fydd yn cael eu rhyddhau fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaru.

## Sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y diwygiadau?

41 Mae gan lawer o ysgolion ymwybyddiaeth dda o'r newidiadau a gynlluniwyd o dan Ddeddf newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Caiff mwyafrif yr ysgolion eu hysbysu am y diwygiadau ADY gan uwch staff sydd â chyfrifoldeb am AAA, fel y CydAAA. Mae tua hanner yr ysgolion yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf oherwydd diddordeb personol aelod o staff.

42 Mae bron pob CydAAA/CydADY ysgol wedi cael hyfforddiant a chymorth gan yr awdurdod lleol ar y system ADY newydd sydd ar ddod. Elfen hynod ddefnyddiol o hyn fu'r ffocws ar gyflwyno arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

43 O ganlyniad, mae llawer o ysgolion a staff yr ysgolion yn ymwybodol o ddulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn erbyn hyn. Mae mwyafrif o ysgolion eisoes yn cyflwyno arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda staff, disgyblion a rhieni. Yn gyffredinol, mae'r newid hwn o ran dull wedi cael croeso da gan bawb sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn dangos bod cynnwys disgyblion yn fwy yn eu dysgu a gosod eu targedau yn gallu eu grymuso a gwella'u lles a'u hagweddau at ddysgu. I rai ysgolion, fel y rheiny sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau peilot, mae'r arfer hon yn fwy sefydledig nag ydyw mewn ysgolion eraill.

44 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod bod safbwyntiau disgyblion yn bwysig, ac y dylid gwrando arnynt. Mae tua hanner yr ysgolion yn credu bod disgyblion yn gwybod pwy sy'n cydlynu eu cymorth a, phan fo'n briodol, gall disgyblion gyfrannu at y broses a gallant ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. O ganlyniad, mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn credu bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'u hanghenion ac yn ymgysylltu â'r broses gymorth.

45 Wrth i ysgolion ddod yn fwy ymwybodol o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, maent yn gweithio'n agosach â rhieni i gynorthwyo eu plentyn. Mae ysgolion yn adeiladu ar yr arfer dda a sefydlwyd eisoes i gynyddu cyfranogiad rhieni yn nysgu ac anghenion eu plentyn. Ceir tystiolaeth o ysgolion yn darparu amrywiaeth o strategaethau i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhieni, gan gynnwys cynnal sesiynau gwybodaeth dargedig a chreu DVDau i rannu'r gwaith y maent yn ei wneud gyda rhieni.

46 Mae ysgolion yn gweithio'n agosach ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r plentyn hefyd o ganlyniad i arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. I ysgolion sydd wedi sefydlu'r broses hon, caiff y dull amlasiantaethol hwn effaith gadarnhaol ar y disgybl a'r rhiant. Rhennir gwybodaeth a strategaethau yn eang er mwyn i staff allu cynorthwyo disgybl yn fwy priodol a darparu dull cydlynol o gynllunio a chyflwyno cwricwlwm pwrpasol i'r disgybl ei gyflawni.

47 Pan fydd ysgolion wedi mabwysiadu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, caiff groeso da gan staff a rhieni. Ar sail yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fel rhan o'r adroddiad hwn:

- Dywed llawer o ysgolion fod ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion y plentyn

ar sail y dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Mae llawer o ysgolion yn credu y gwrandewir yn fwy ar safbwyntiau rhieni.
- Mae mwyafrif yr ysgolion yn credu bod rhieni'n fwy ymwybodol o gyfraniadau asiantaethau eraill, gan gynnwys ysgolion, o ran cynorthwyo eu plentyn.
- Dywed y lleiafrif o ysgolion fod asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r plentyn a'i anghenion trwy ddulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

48 Mae ychydig o feysydd lle nad yw manteision llawn dull arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael eu gwireddu eto. Er enghraifft, mewn tua hanner yr ysgolion yn yr arolwg hwn, y CydAAA/CydADY yn unig a oedd wedi cael hyfforddiant, ac nid oedd yn ddull ysgol gyfan eto. Ar hyn o bryd, mae lleiafrif o ysgolion yn teimlo bod asiantaethau eraill yn glir o ran eu hymrwymiad i gynorthwyo'r disgybl ac yn darparu gwybodaeth i gefnogi'r broses neu'n mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, cydnabyddir mai megis dechrau cael ei roi ar waith o hyd y mae diwygio ADY.

49 Mae llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r Cod ADY drafft a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017a). Defnyddir y Cod drafft i gynorthwyo ysgolion i adolygu darpariaeth bresennol a dechrau ffurfio'r defnydd o'r dull arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mewn ychydig o achosion, defnyddir y Cod drafft i lywio gweithredu CDUau, er bod hyn yn ei gamau cychwynnol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae ychydig o ysgolion yn arbrofi â defnyddio dulliau CDU trwy ymgynghori â'u hawdurdodau lleol. Mae mwyafrif yr ysgolion yn glir ynglŷn â diben CDU, ond nid ydynt wedi dechrau'r broses o drosglwyddo o ddefnyddio CAUau a chynlluniau eraill eto, gan gynnwys datganiadau statudol, i CDUau. Bydd ysgolion yn derbyn arweiniad ar raddfeydd amser ar gyfer mabwysiadu a safoni fformat CDU gan Lywodraeth Cymru.

50 Ceir enghreifftiau o arfer dda sy'n cael ei rhannu rhwng ysgolion o fewn awdurdodau lleol, er nad yw hyn yn arfer gyson ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o enghreifftiau o rannu arfer yn ymwneud â chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

51 Gan ei bod yn ddyddiau cynnar o ran y rhaglen trawsnewid ADY, ar y cyfan, nid yw ysgolion wedi cyfathrebu'n ffurfiol â rhieni eto ynglŷn â newidiadau yn y dyfodol. Pan fo ysgolion yn defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, anogwyd rhieni i fod yn rhan o'r broses gyda'u plentyn ac mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac agweddau eraill ar y gwaith diwygio ar lefelau cwynion gan rieni.

## Pa ddata sydd gennym ar ddisgyblion ag AAA?

52 Mae tua chwarter (105,000) y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig ar hyn o bryd. Addysgir y rhan fwyaf o ddisgyblion ag AAA ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd (Llywodraeth Cymru, 2017b). Addysgir ychydig dros 6,000 o ddisgyblion mewn dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn tua 250 o ysgolion cynradd neu uwchradd. Addysgir ychydig dros 4,500 o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac mae ychydig dros 2,000 o ddisgyblion yn derbyn eu haddysg mewn darpariaeth heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn UCDau.

53 Er bod dysgwyr ag AAA yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm, mae ysgolion yn cofrestru'r dysgwyr hyn ar gyfer llai o gymwysterau na'u cyfoedion, ar gyfartaledd. Caiff dysgwyr ag AAA eu cofrestru ar gyfer dau gymhwyster TGAU yn llai ar gyfartaledd na dysgwyr nad oes ganddynt AAA.

54 Rhwng 2013 a 2016, nid yw'r bwlch mewn cyflawniad rhwng dysgwyr ag AAA a'u cyfoedion mewn ysgolion a cholegau AB wedi lleihau'n sylweddol ar gyfer dangosyddion allweddol ac mae'n parhau i fod yn rhy eang (Llywodraeth Cymru, 2017c).

55 Mae tri deg dau y cant o ddisgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) yn cyflawni'r lefel 2 cynhwysol (Llywodraeth Cymru, 2017c). Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth mewn lleoliadau hynod arbenigol a'r rheiny ag ASA a allai fod yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Felly, mae perfformiad disgyblion ag awtistiaeth yn aneglur.

56 Roedd absenoldeb parhaus yn fwy cyffredin ymhlith disgyblion ag anghenion addysgol arbennig nag ymhlith disgyblion heb AAA. Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfradd absenoldeb disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn uwch nag unrhyw grwpiau eraill o ddisgyblion ag AAA. Y grŵp hwn o ddisgyblion sydd â'r gyfradd uchaf o absenoldeb anawdurdodedig hefyd. Mae dros deirgwaith yn uwch nag ydyw ar gyfer disgyblion heb AAA. Mae effaith absenoldeb parhaus ar gyfer disgyblion yn cyfrannu at dangyflawni. Yn 2016-2017, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yng Nghymru wedi aros yr un fath ag ydoedd yn 2015-2016, sef 1.5% mewn ysgolion cynradd, a chynyddodd 0.1 pwynt canran o 3.9% i 4.0% mewn ysgolion uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2017d).

**Tabl 1: Canran dysgwyr cyfnod allweddol 4 y mae eu presenoldeb islaw 90% ac uwchlaw 95% ar gyfer dysgwyr ag AAA, a heb AAA, 2013-2017**

| | Presenoldeb islaw 90% | | Presenoldeb uwchlaw 95% | |
|---|---|---|---|---|
| | Heb AAA | AAA | Heb AAA | AAA |
| 2013 | 24% | 38% | 50% | 38% |
| 2014 | 19% | 34% | 56% | 42% |
| 2015 | 17% | 31% | 58% | 45% |
| 2016 | 16% | 28% | 60% | 46% |
| 2017 | 14% | 29% | 62% | 47% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2017e

## Atodiad:  Sail y dystiolaeth

Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar wybodaeth a gasglwyd o bob arolygiad ysgol a gynhaliwyd o dan y trefniadau arolygu newydd rhwng Ionawr 2018 a Mawrth 2018. Defnyddiwyd adroddiadau arolygiadau o 2015-2016 hefyd i nodi nodweddion allweddol arfer effeithiol o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag AAA.  Yn ychwanegol, cynigiwyd cyfle i 167 o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y pedwar consortiwm lenwi holiaduron ac ymatebodd 35 ohonynt.  Cafwyd un deg naw ymateb gan ysgolion cynradd, ac wyth ymateb gan ysgolion uwchradd ac UCDau. Defnyddiwyd yr holl wybodaeth i ddarparu arwyddion o barodrwydd ysgolion i drosglwyddo i’r system ADY newydd yn raddol.  Defnyddiwyd astudiaethau achos o saith ysgol i ddarparu enghreifftiau o arfer dda.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AAA** | Anghenion addysgol arbennig |
| **AAD** | Anhawster a/neu anabledd dysgu |
| **AB** | Addysg Bellach |
| **ACEY** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **ACU** | Arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol fel y'u diffinir yn gyfreithiol yn y Ddeddf |
| **ALl** | Awdurdod lleol |
| **CAU** | Cynllun addysg unigol |
| **CDU** | Cynllun datblygu unigol |
| **CDU** | Cynllun dysgu unigol |
| **Cod ADY** | Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **CydAAA** | Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig |
| **CydADY** | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **DECLO** | Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig |
| **DDdY** | Darpariaeth ddysgu ychwanegol |
| **EOTAS** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **GIG** | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **OPP** | Proffil un dudalen |
| **PATH** | Cynllunio Dewisiadau Eraill er budd Gobaith |
| **SAB** | Sefydliad addysg bellach |
| **TAAAC** | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| **Trothwy lefel 1** | Swm o gymwysterau ar lefel 12 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd D-G |
| **Trothwy lefel 2 cynhwysol (L2+)** | Swm o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg |
| **UCD** | Uned cyfeirio disgyblion |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted [Defnyddiwyd 20/02/2018]

Great Britain (1996) *Education Act 1996*. Chapter 56. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/pdfs/ukpga_19960056_en.pdf [Defnyddiwyd 01/01/2017]

Great Britain (2000) *Learning and Skills Act 2000*. Chapter 21. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/pdfs/ukpga_20000021_en.pdf [Defnyddiwyd 01/01/2017

Llywodraeth Cymru (2015) *Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/151210-person-centred-practice-in-education-cy.pdf [Defnyddiwyd 9 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s59527/Draft%20Additional%20Learning%20Needs%20Code%20February%202017.pdf [Defnyddiwyd 01/01/2017]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-sector-year [Defnyddiwyd 23 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-chracteristics/?lang=cy [Defnyddiwyd 01/01/2018]

Llywodraeth Cymru (2017d) *Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-pupil-characteristics/?lang=cy [Defnyddiwyd 01/01/2018]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Data presenoldeb.* Heb ei gyhoeddi